# Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ganllawiau a Rheoliadau Statudol sydd eu hangen i weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd

## Rhagfyr 2022

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk

1.2 Yn rhan o'n gwaith, rydym yn:

- Goruchwylio'r deg rheolydd gweithwyr iechyd a gofal ac yn adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar eu perfformiad
- Achredu cofrestrau ymarferwyr gofal iechyd mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan dan y gyfraith rwy'r rhaglen Cofrestrau Achrededig
- Cyflawni ymchwil ac yn cynghori pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig ar welliannau mewn rheoleiddio
- Hyrwyddo rheoleiddio cyffyrddiad cywir a chyhoeddi papurau ar bolisi ac ymarfer rheoleiddio.

## 2. Sylwadau cyffredinol

2.1 Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ganllawiau a Rheoliadau Statudol sydd eu hangen i weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd yng Nghymru.

2.2 Fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad 2019 ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) sy'n cefnogi cyflwyno'r ddyletswydd statudol yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r cam nesaf hwn tuag at weithredu'r ddyletswydd o fis Ebrill 2023. Mae gonestrwydd yn hynod o bwysig i gleifion a theuluoedd ac yn rhan allweddol o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan barchu defnyddwyr gwasanaeth trwy fod yn onest a'u cynnwys yn eu gofal.

2.3 Er ein bod yn credu bod y canllawiau a'r rheoliadau'n ddefnyddiol ar y cyfan o ran amlinellu sut y bydd y ddyletswydd yn gweithredu yng Nghymru, nodwn fod gweithredu'r ddyletswydd statudol yng Nghymru yn arwydd o gyflwyno trothwy gwahanol eto ar gyfer cymhwyso'r ddyletswydd gonestrwydd ledled y DU. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r trothwyon presennol ar gyfer arfer y ddyletswydd statudol yn Lloegr a'r Alban a'r ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol y mae

pob gweithiwr proffesiynol a reoleiddir ar draws y DU yn ddarostyngedig iddi drwy eu cofrestriad proffesiynol.

2.4 Fel y dywedom yn ein hymateb i reoliadau gonestrwydd yr Alban[1], yn ein barn ni byddai'n gwella eglurder a dealltwriaeth o'r ddyletswydd pe byddai trothwy cyffredin ar gyfer gonestrwydd yn cael ei ddefnyddio ledled y Deyrnas Unedig. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cynnwys ymagwedd gyffredin i'r ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol a'r dyletswyddau statudol ym mhob gwlad.

2.5 Er ein bod yn cydnabod nad yw'r gwahaniaethau hyn o fewn gallu Llywodraeth Cymru i'w datrys yn llawn, a bod awydd i sicrhau bod y trothwy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol ar adrodd am ddigwyddiadau ar gyfer pob gwlad, credwn y gallai'r amrywiadau hyn gael eu cydnabod yn fwy penodol yn y canllawiau. er mwyn sicrhau y gellir lliniaru unrhyw ddryswch posibl. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol y bydd pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru yn ddarostyngedig iddi. Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch sut yn union y bydd cyfrifoldebau proffesiynol yn rhyngweithio â'r broses ar gyfer arfer y ddyletswydd statudol yng Nghymru.

2.6 O ystyried yr heriau parhaus wrth sefydlu diwylliant o onestrwydd ar draws y DU gydag adolygiadau diweddar o fethiannau mewn Ymddiriedolaethau GIG yn Nwyrain Caint ac Amwythig a Telford yn ogystal â Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn 2019 yn amlygu diffyg gonestrwydd a didwylledd, byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r canllawiau fynd i'r afael yn fwy penodol â rhai o'r rhwystrau hysbys i onestrwydd. Bydd yn bwysig i ddarparwyr gofal iechyd ddeall sut y dylent geisio mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn i sicrhau bod staff yn teimlo y gallant arfer y ddyletswydd broffesiynol a statudol.

2.7 Rydym yn nodi bod y ddyletswydd gonestrwydd eisoes yn ei lle ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn cefnogi'r ymrwymiad i gyflwyno dyletswydd gyfatebol ar gyfer darparwyr annibynnol o fis Ebrill 2024. Mae'n bwysig bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn gallu disgwyl yr un lefel o ddidwylledd a gonestrwydd ni waeth beth ble maent yn cael mynediad at ofal, ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, y GIG a'r sector gofal iechyd annibynnol.

## 3. Sylwadau manwl

3.1 Nid ydym wedi ateb pob cwestiwn ymgynghori ond yn hytrach wedi darparu sylwadau cyffredinol ar bob dogfen y cyfeirir ati yn yr ymgynghoriad.

### Canllawiau Dyletswydd Gonestrwydd

3.2 Mae'r canllawiau'n ddefnyddiol wrth ymhelaethu ar y broses ar gyfer sut y dylai'r ddyletswydd gonestrwydd statudol weithredu yng Nghymru. Fodd bynnag, mae rhai meysydd lle roeddem yn meddwl y byddai mwy o fanylion yn ddefnyddiol.

---

[1] Awdurdod Safonau Proffesiynol 2015, *Response to the Scottish Government consultation: Proposals to introduce a statutory duty of candour for health and social care services*. Ar gael ar: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/consultation-response/others-consultations/2015/scottish-government-duty-of-candour.pdf?sfvrsn=75a57f20_9

3.3 Rydym yn nodi'r heriau parhaus o ran gwreiddio'r ddyletswydd mewn rhannau eraill o'r DU. Er bod y rhesymau am hyn yn gymhleth, gall y trothwyon gwahanol ar gyfer y gwahanol ddyletswyddau gonestrwydd ledled y DU fod yn ffactor. Yn ein hadroddiad yn 2019 yn edrych ar y cynnydd gan y rheolyddion proffesiynol o ran mewnosod dyletswydd gonestrwydd proffesiynol, fe glywsom gan randdeiliaid bod cysondeb o ran gweithredu'r trothwyon parthed y ddyletswydd gonestrwydd yn bwysig i helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall y disgwyliadau arnynt.[2] Roedd hyn yn cynnwys cysondeb rhwng rheolyddion proffesiynol, ond hefyd mwy o eglurder ar y berthynas rhwng y ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol a statudol.

3.4 Fel y nodwyd yn ein sylwadau blaenorol ar y Bil Iechyd a Bil Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)[3], mae'r trothwy yng Nghymru ar gyfer arfer y ddyletswydd o 'fwy nag ychydig' o niwed yn wahanol i'r trothwyon a amlinellir ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd statudol yn Lloegr a'r ddyletswydd gonestrwydd yn yr Alban. Yn Lloegr, mae'r rheoliadau yn cyfeirio at 'ddigwyddiad diogelwch hysbysadwy' a allai arwain at farwolaeth y defnyddiwr gwasanaeth (oherwydd y digwyddiad yn hytrach na chwrs naturiol salwch neu gyflwr sylfaenol y defnyddiwr gwasanaeth) neu 'niwed difrifol, niwed cymedrol neu niwed seicolegol parhaus i'r defnyddiwr gwasanaeth.'[4] Yn yr Alban, mae'r rheoliadau yn cyfeirio at 'ddigwyddiadau anfwriadol neu annisgwyl' sy'n arwain at ddeilliannau penodol.[5]

3.5 Rydym yn cydnabod bod pob gwlad yn y DU, gan gynnwys Cymru, wedi cyflwyno'r ddyletswydd mewn ffordd sy'n cyd-fynd â gofynion adrodd am ddigwyddiadau andwyol presennol. Fodd bynnag, rydym yn dal o'r farn y byddai'n gwella eglurder a dealltwriaeth o'r ddyletswydd pe bai trothwy cyffredin yn cael ei ddefnyddio ledled y DU. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cynnwys ymagwedd gyffredin i'r ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol a'r dyletswyddau statudol ym mhob gwlad.

3.6 Er ein bod yn cydnabod y byddai ymagwedd gyffredin ledled y DU yn her i'w chyflawni, byddem wedi hoffi gweld cyfeiriad mwy penodol at y gwahaniaethau hyn yn y canllawiau i helpu gweithwyr proffesiynol i lywio'r amrywiadau a deall sut i gymhwyso'r dyletswyddau'n effeithiol yng Nghymru. Yn benodol, er ei fod yn cyfeirio ato, gallai'r canllawiau fod yn gliriach ynghylch yn benodol sut mae'r

[2] Awdurdod Safonau Proffesiynol 2019, *Telling patients the truth when something goes wrong - Evaluating the progress of professional regulators in embedding professionals' duty to be candid to patients*. Ar gael ar: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/research-paper/telling-patients-the-truth-when-something-goes-wrong---how-have-professional-regulators-encouraged-professionals-to-be-candid-to-patients.pdf?sfvrsn=100f7520_6

[3] Awdurdod Safonau Proffesiynol 2019, *Sylwadau i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)*. Ar gael ar: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/consultation-response/others-consultations/2019/professional-standards-authority-comments-health-and-social-care-(quality-and-engagement)-(wales)-bill.pdf?sfvrsn=4a477720_4

[4] Rheoliadau'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau Reoledig) 2014: Rheoliad 20 – y ddyletswydd gonestrwydd. Ar gael ar: https://www.cqc.org.uk/guidance-providers/regulations-enforcement/regulation-20-duty-candour#full-regulation

[5] Deddf Iechyd (Tybaco, Nicotin ac ati a Gofal) (Yr Alban) 2016, *Gweithdrefn dyletswydd gonestrwydd*. Ar gael ar: http://www.legislation.gov.uk/asp/2016/14/part/2/crossheading/duty-of-candour-procedure/enacted

dyletswyddau proffesiynol a statudol yn rhyngweithio. Er bod y canllawiau ar gyfer cyrff y GIG, bydd llwyddiant gweithredu'r ddyletswydd yng Nghymru serch hynny yn dibynnu ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn deall sut a phryd y dylai fod yn berthnasol.

3.7 Er y bydd gan weithwyr proffesiynol fynediad at ganllawiau gan eu rheolydd ar gymhwyso'r ddyletswydd broffesiynol, bydd yn bwysig iddynt ddeall sut mae hyn yn cyd-fynd â'r broses ar gyfer arfer y ddyletswydd statudol yng Nghymru. Mae hyn yn ymwneud â phroses ac amseru yn ogystal â'r gwahaniaethau mewn trothwyon a chymhwysiad. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ddyletswydd, er enghraifft y ffaith bod achosion agos yn cael eu cynnwys o dan y ddyletswydd broffesiynol ond nid o dan y ddyletswydd statudol.

3.8 Rydym yn croesawu'r eglurder pellach a ddarperir gan y canllawiau ar sut y dylid dehongli'r trothwy ar gyfer arfer y ddyletswydd, sef niwed 'mwy nag ychydig' fel niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth. Mae'r enghreifftiau a ddarperir yn y ddogfen lefelau niwed yn ddefnyddiol, fodd bynnag awgrymwn y gallai fod yn ddefnyddiol egluro, os oes amheuaeth, dylai'r dull ogwyddo tuag at onestrwydd yn hytrach na pheidio gan ei fod yn dal yn debygol y bydd meysydd aneglur wrth ddehongli.

3.9 Rydym yn cefnogi integreiddio'r gofynion ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd â'r gofynion presennol ar adrodd am ddigwyddiadau gan y dylai hyn helpu sicrhau bod gonestrwydd yn cael ei weld fel rhan o'r broses arferol pan fydd digwyddiadau niweidiol yn digwydd. Mae'n ymddangos yn rhesymegol alinio adrodd ar y ddyletswydd gonestrwydd â gofynion adrodd presennol o dan Gweithio i Wella.

3.10 Croesawn y cyfeiriadau yn y canllawiau at hyfforddiant i staff ar ddarparu ymddiheuriad. Fodd bynnag, hoffem hefyd fod wedi gweld mwy o gyfeiriadau at yr angen i ddarparwyr fynd i'r afael yn weithredol â'r rhwystrau sy'n bodoli i onestrwydd mewn gweithleoedd. Amlygodd ein cyngor yn 2013 i'r Adran Iechyd ar weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol ac ymchwil i onestrwydd, datgelu a bod yn agored, nifer o rwystrau i weithwyr iechyd proffesiynol rhag gwneud y peth iawn.[6] Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau'n gallu mynd i'r afael yn benodol â rhai o'r heriau hyn i sicrhau bod darparwyr yn barod i gymryd y camau angenrheidiol o fewn gweithleoedd i wneud diwylliant gonestrwydd yn realiti.

### Rheoliadau Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau Gweithdrefn Gonestrwydd")

3.11 Nid oes gennym sylwadau manwl ar y rheoliadau ac roedd y broses a amlinellwyd yn edrych yn synhwyrol ac yn glir ar y cyfan.

3.12 Rydym yn cytuno ei bod yn briodol i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gyfathrebu wyneb yn wyneb gael ei ddilyn yn ysgrifenedig wedyn. Rydym yn

---

[6] Awdurdod Safonau Proffesiynol 2013, *Candour, disclosure and openness - Learning from academic research to support advice to the Secretary of State*. [Ar-lein] Ar gael ar: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/research-paper/candour-research-paper-2013.pdf?sfvrsn=5b957120_8

croesawu'r rheoliad sy'n egluro nad yw ymddiheuriad yn gyfaddefiad o atebolrwydd.

3.13 Mae'n gadarnhaol bod y rheoliadau'n cynnwys gofynion ar gyfer darparu hyfforddiant i staff ar y weithdrefn gonestrwydd a dylai'r canllawiau yn Atodiad E fod o gymorth i gefnogi staff i wneud ymddiheuriad ystyrlon.

3.14 Byddem yn awgrymu y gallai gofyniad mwy penodol ar hyfforddiant i staff ar sut i ymddiheuro a chael sgyrsiau tosturiol fod yn ddefnyddiol. Er bod canllawiau'n ddefnyddiol, fel y mae SANDs wedi'i amlygu yn eu hegwyddorion ar gyfer cynnwys rhieni mewn adolygiadau/ymchwiliadau yn dilyn marwolaeth baban, 'mae cyfathrebu clir, sensitif a gonest yn hanfodol i annog ymgysylltiad rhieni'. Yn aml mae angen set o sgiliau penodol i gynnal y mathau hyn o sgyrsiau ac felly gallai hyfforddiant ychwanegol o'r math hwn fod yn ddefnyddiol i staff.[7]

### Canllawiau a rheoliadau Gweithio i Wella ("Canllawiau PTR")

3.15 Nid oes gennym sylwadau manwl ar y newidiadau i reoliadau canllawiau PTR. Mae'n rhesymegol alinio gweithdrefn PTR â'r gofynion dyletswydd gonestrwydd ac rydym yn cefnogi'r newid i'w gwneud yn ofynnol i'r GIG hysbysu cleifion am yr hyn sydd wedi mynd o'i le ym mhob amgylchiad lle mae'r ddyletswydd yn cael ei hysgogi.

3.16 Er y gall fod canfyddiad y gallai peidio â dweud wrth rywun fod er y budd gorau iddynt, mae hwn yn debygol o fod yn asesiad goddrychol ac efallai na fydd yn briodol.

### Asesiad effaith

3.17 Rydym yn croesawu asesiad gan Lywodraeth Cymru o effaith debygol cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd. Rydym yn cytuno'n fras ei bod yn debygol y bydd effaith gadarnhaol net ar gleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn gyffredinol, er y gallai datgeliad o dan y ddyletswydd effeithio'n fwy tebygol ar rai grwpiau oherwydd lefel eu cyswllt â'r gwasanaeth iechyd.

3.18 Gallai fod yn fuddiol ystyried unrhyw effeithiau pellach ar grwpiau o staff â nodweddion gwarchodedig. Er bod nod diwylliant gonestrwydd yn gymeradwy, mae tystiolaeth y gall diwylliannau gwenwynig yn y gweithle gael effaith lesteiriol ar onestrwydd a pheth tystiolaeth y gall staff â nodweddion gwarchodedig wynebu mwy o anawsterau wrth godi pryderon a bod yn agored. Gan y gallai hyn ymestyn i arfer y ddyletswydd gonestrwydd, rydym yn awgrymu y dylid ystyried lliniaru unrhyw effeithiau o'r natur hon.

3.19 Nid oes gennym farn ynghylch a yw cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd yn debygol o gael unrhyw effaith ar y defnydd o'r Gymraeg.

[7] SANDs Principles for engaging parents in reviews/investigations: https://www.sands.org.uk/sites/default/files/Sands%20Principles%20of%20Parents%20Engagement%20in%20Review.pdf

## 4. Rhagor o wybodaeth

4.1 Cysylltwch â ni os yr hoffech drafod unrhyw agwedd o'r ymateb hwn mewn manylder. Gallwch gysylltu â ni yn:


**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

E-bost: policy@professionalstandards.org.uk
Gwefan: www.professionalstandards.org.uk
Ffôn: 020 7389 8030